YR YMOFYNNYDD

Cylchgrawn Misol
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Rhyddid
Gwirionedd · Cariad

Cynnwys

PENNOD O SHIPRYS
ATODIAD I HELYNTION HEN BREGETHWR
FFANSIR FFIN
CHWEDL
PRIODASAU
MARWGOF
NODION YR EGLWYSI



Cyf. xxxvii

Mehefin 1937

Rhif 6

YR YMOFYNNYDD

Pris 3c. y mis; drwy y Post, 3s.6c. y flwyddyn. Danfonir 6 copi ac ychwaneg yn ddidraul drwy'r Post.

Anfoner Erthyglau, Llyfrau i'w hadolygu, etc., i'r Golygydd—Y Parch. T. L. Jones, 38, Monthermer Road, Cathays, Cardiff.

Yr archebion a'r taliadau i'w hanfon i'r Cyhoeddwyr,—J. D. Lewis a'i Feibion, Swyddfa'r "Ymofynnydd," Llandysul.

MYNNWCH GOPI O LYFR NEWYDD

SARNICOL

'Blodau Drain Duon'

SYDD YN AWR YN EI AIL ARGRAFFIAD

Pris 1s. (Drwy'r Post, 1s. 2c.)

Anfoner i

SWYDDFA'R 'YMOFYNNYDD,' LLANDYSUL.

Cyhoeddwyd yr Argraffiad Cyntaf ychydig cyn Nadolig.
Y mae'r Ail Argraffiad yn awr yn barod.

CERDDI DIGRI

A RHAI PETHAU ERAILL

Gan IDWAL JONES.

Yn cynnwys ilmrigau, braslun o ffarsiau byrion, a'r cerddi ac adroddiadau a ganlyn—*Un Dyn Bach ar ôl, Eistedd ar ben Llidiard, Ie wir! Twt, twt! Swot, Siani, Marged, Leisa, Caru Mari, Profiadau Hyfryd, Profiadau Diflas, Ymadawiad Neli, Diniweidrwydd Dyn, etc.*

Anfonwch at y Cyhoeddwyr:

J. D. LEWIS A'I FEIBION, GWASG GOMER, LLANDYSUL.

Pris 2s., Drwy'r Post, 2s. 3c.

Yr Ymofynnydd

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd : Y Parch. T. L. JONES

Cyfrol xxxvii. MEHEFIN, 1937 Rhif 6.

Pennod o Shiprys.

Bydd yn dda gan y darllenwyr wybod y bydd y Golygydd ei hun wrth y llyw gyda'r rhifyn nesaf.* Ni cheisiais i ond llanw bwlch yn ystod afiechyd fy hen ffrind—bod yn garreg lanw am y tro, ac yna mynd o'r ffordd i dynnu'r *dole* wedyn. O wybod fy nhynged nid oes i mi fel *free lance* ond manteisio ar fy nghyfleu a thraethu fy meddwl yn glir ar broblemau byd a betws.

Wrth ysgrifennu pennod o shiprys ni ddisgwylir na bydd ynddi ambell ysgallyn neu old neu lysiau'r griswil. Rhyfedd hefyd oni bydd rhywun neu gilydd wedi teimlo draen yr ysgall yn pigo ei falchter yn ystod afiechyd y Golygydd. Slawer dydd wrth rwymo yr oedd y croendeneu yn teimlo'r drain. Y mae felly o hyd. Y mae ambell frath yn cyffro gwaed a dihuno dyn o'i ddifrawder, ond nid o *bleser* y brethir ond o *raid.* Addefaf y gwel pobun y draen " a bawddyn lle na byddo ".

Wedi cilio o'r pomp a'r pasiant, a thewi o'r gweiddi, daw dyn rywsut i weld yn gliriach fel pan gilio'r niwl. Diddorol oedd gweld cenedl mewn mwd o rialtwch llawen, ac ynghanol amser digon caled a thlawd yr oedd yn gyfleu iddi anghofio ei hun—rhyw *safety valve*, ac ys dwedai hen werinwr unwaith o weld y gair *Safety* y tro cyntaf. Ni wyddai Saesneg, ac nid oedd iddo ond ei sillebu oreu y gallai yn Gymraeg a dweyd " Saf Ati ", a dyna fydd raid i'r genedl wneud—sefyll ati—wedi orig o hwyl. Ar lawer tro fe edrychwn ni bobl barchus gyda gwawd ar ambell un y sy'n rhoi ffling iddi ar dro yn y dafarn, dweder. Wfftiwn y tlawd am dyrru i sinema. Ni chredaf bod hawl gennym oni wyddom drwy brofiad

*Deallaf mewn llythyr ataf wedi ysgrifennu yr uchod ei fod wedi penderfynu'n bendant na fedr ail gydio yn yr Ymofynnydd.

arn fywyd y cyfryw, ac nad yw'r fling a'r sinema ond *safety valve—escape*—o fywyd llwyd undonnog y cyfryw. Nid wyf yn sicr na buasai fy fling i yn y fath fywyd yn amlach. A ŵyr a deimlo. O leiaf y mae nghydymdeimlad gyda hwynt bob tro, a chyda llaw ofer a fuasai fy ngwneud yn Ynad Heddwch oherwydd y mae nghydymdeimlad bron yn ddieithriad gyda'r troseddwr. *Rhyw gomplex rhyfedd*, chwedl y gwyr deallus.

Er dwedyd hynyna, ni wn na buasem yn ddoethach pe baem wedi ymddihatru y seremoni o lawer o'i phasiant gorwych henafol a ffol bellach. I mi yr oedd yn artiffisial. Yr oedd rhyw awydd gofyn arnaf Pa Hyd Eto ? Gwn y gofyn dro cyn gweithio brenhiniaeth allan o waed y Prydeiniwr, ac nid wyf yn berffaith sicr y byddai'r newid er gwell hwyrach. Ni fedraf i ddehongli fy meddyliau fy hun, ac nid oes dim amdani ond gadael gwerin gwlad ynghanol ei rhialtwch, y Brenin ar ei orsedd, y byd mewn cyfyngder, a " Duw yn ei nefoedd " chwedl Browning.

Y mae'n anodd deall *politics* y byd heddiw. Goreu po leiaf a ddeellir arnynt os *politics* yw diawlineb y gwledydd heddiw. Y mae'n ddiddorol, serch hynny, ceisio deall y gwahanol safbwyntiau, a chael gafael ar y gwir. Yn ddiweddar darllenwn *Soviet Democracy Pat Sloan*, a thybiwn bod Rwsia wedi ymaflyd codwm a phwerau a ystyriwn ni ym Mhrydain yn anorthrech,—ie, darllain popeth a deifl oleuni ar gawdel byd—o *Soviet Democracy* i erthygl Cenedlaetholdeb Cymru a Chomiwnyddiaeth yn Heddiw.

Hyd y cofiaf yr ym wedi bod yn fud fel enwad yn ddiweddar. Ni chawsom farn bendant Undodiaid ar danio Ysgol Fomio Porth Neigwl, ac nid oedd nemor o wahaniaeth gennym am symud y treial i'r *Old Bailey*. Gwn ein bod wedi bod ar y blaen gynt, ond yr ym yn fud ers llawer dydd. Nid ym wedi codi llef groyw fel enwad o blaid heddwch na chwarae teg na Chymru ers tro byd bellach. Mor wahanol ydoedd yn adeg Beca, '68 a Rhyfel y Degwm ac Addysg. Yr oedd Undodwyr yr adeg honno ar flaen y gâd. Tybed bod Ysbryd Gwilym Marles a'r hen deidiau wedi marw ? Dyna'r arwydd sicraf bod rhywbeth yn marw ynom yw ein bod wedi colli blâs ar gerdded rhagom. Y mae eisiau y dwyfol wynt i chwythu ar yr ESGYRN SYCHION hyn eto. Ofnaf ein bod yn waeth na'n haelodau seneddol, ag ysbryd democratiaeth yn farw ynom . . .

Tybiwn ni na feiddiai neb wedi Mwsolini yn Abysynia dorri pob canon o ddynoliaeth, ond credaf bod *bombing planes* Hitler wrth ladd y diamddiffyn yn *Guernica* wedi rhoi her i 'ddiawl i wneud yn amgenach '. Pwy noson gwrandawn ar y *radio* ar groeso Prydain i filoedd o blant bach—alltudion *Bilbao*—a thybiwn glywed drwy'r llais, lais *Gladstone* yn taranu yn erbyn gorthrymwyr gynt. Ni chredaf y gadawai *Gladstone* y pethau hyn fod . . .

Yr wyf yn deall pam . . . Y mae gormod o gytundebau cudd tu ol i'r cyfan fel na ŵyr ond Duw ei hunan pwy sydd yno a dwylo glân . . .

Erbyn y bydd yr YMOFYNNYDD yn nwylo'r darllenwyr bydd y Duc Windsor wedi ymbriodi a dewis ei galon. Diolch am gael terfyn ar briodasau gwlad. Nid yw priodasau gwneud yr uchelwyr yn cyffwrdd a mi, ond ni fedraf lai na theimlo bod y Duc Windsor wedi gwneud gwasanaeth drwy ysgubo ymaith unwaith ac am byth yr hen syniad bod y cwlwm a glymir yn sanctaidd ynddo ef ei hun, a bod pob priodas wedi'i phennu yn y nef. Os felly, nid oes ond dweyd "*Someone has blundered badly often*". Y mae'n bryd i ni edrych ar briodas o safbwynt gwahanol. Fel y dwedais yn rhywle o'r blaen, y cawdel ynglyn a phriodas Harri'r Wythfed oedd achlysur (nid yr achos) o sefydlu Eglwys Loegr a dadsefydlu Eglwys Rhufain. Credaf i mai'r cawdel ynglyn a phriodas Edward yr Wythfed (Duc Windsor) a ddwg yr holl drefn i olau dydd a thybiaf glywed Iesu yn dweyd, "Priodas a wnaethpwyd er mwyn dyn ac nid dyn er mwyn priodas". Ni wn i ddim y sydd tu ol i'r llen. Nid wyf am wybod chwaith, ond fe garai llawer wybod am y rhan a chwaraeodd deddfau haearnaidd eglwys yn nhragedi y Duc Windsor. Nid yw hynyna ond gyda llaw, a gobeithiaf y myn gwerin ysgubo ymaith unbennaeth eglwys, fel unbennaeth Pab a brenin gynt, ac y ceir problem priodas wedi ei dadrys, gan ei gosod ar sylfaen ddiogelach na bendith eglwys—ar gariad glân dwy galon bur. Gwell mil o weithiau darnio y cadwyni y sydd yn clymu deuddyn yn anghymarus na chadw'r cadwyn yn gyfan a pheri i'r ddeuddyn fyw mewn anfoesoldeb . . .

O leiaf dymunaf i BRIODAS HAPUS i hen Dywysog Cymru, am gredu ohonof fod ei galon yn curo mewn cydymdeimlad a dyhead gwerin. Gobeithio bod ei gerdded garw ond penderfynol ef wedi agor y ffordd i werinwyr gwlad o afael gorthrech eglwys a thraddodiad i hapusrwydd calon a dedwyddwch teulu, heb orfod torri canonau moes na gwedduster oherwydd cadwyni gwneud deddf gwlad ac eglwys.

Fe ŵyr pob un y sydd wedi clywed twi Adar Tregaron am IDWAL. Yr oedd wedi ennill calon ei oes drwy'i ddramau a'i ganeuon digri, a champ fawr oedd peri i genedl chwerthin yng nghanol ei chyfyngder. Credaf iddo ddarganfod mai calon lawen yw calon y Cymro yn y gwaelod. Hunodd yn gynnar, gynnar, yn rhy gynnar o gofio'i athrylith ond nid yn rhy gynnar o gofio'i gystudd maith.

"Idwal, ddiofal hefyd !—Sh ! dim sŵn !
Sh ! Dim sain anhyfryd—
Mond creu 'i oreu i'w weryd,
Y mae'r bedd am hiwmor byd."

Atodiad i Helyntion Hen Bregethwr a'i Gyfoedion.

Gobeithio na 'larodd y darllenwyr ar feithder yr " Helyntion ". Os do, ymddiheuraf iddynt. Yr hyn a barodd imi barhau gyhyd i ysgrifennu oedd anogaethau cyfeillion, a'r peth a'm cymhellodd i ychwanegu'r atodiad hwn oedd cwestiwn a ofynnodd Mr. J. J. Evans, M.A., Penathro Ysgol Ganolradd Ty Ddewi mewn llythyr caredig imi'r dydd o'r blaen. Dyma a ysgrifennodd —" Ys gwn i o ble y daeth yr enw Blaentrafle, ger St. Clears? Y mae Trafle yn enw ar fferm ger Cwrtnewydd—nid ymhell o Flaencathal lle y ganed Jenkin Jones. Byddai'n ddiddorol gwybod pa un o'r ddau sydd hynaf ".

Ond nid dyma'r unig enw lle a geir yn yr " Helyntion " sydd o ddiddordeb. Beth am Letytwpa a Brongest? Meddyliaf y ceir ail elfen (' gest ') y gair olaf hefyd ym Moelygest ger Porthmadog.

A gaf i yma grwydro peth i son am nifer o eiriau bro fy nhad—rai ohonynt nas ceir ond o fewn cylch cymharol gyfyng? Digwydd amryw yn yr " Helyntion ".

I'r mwyafrif odid nad oes llyfr sychach na geiriadur—llyfr yn cynnwys rhesi o eiriau, eu hystyron a'u tarddiad hyd y gwyddys. Eithr i'r efrydydd nid oes dim llyfr mwy diddorol.

Rhydd olrhain tarddiad geiriau a'u hanes oleuni yn fynych ar fywyd ac arferion y tadau a'u cysylltiadau a'u gilydd ac a'u cyddynion o genhedloedd a gwledydd eraill. Gofynnodd y wraig imi ryw dro beth oedd y gair Cymraeg am ' *herrings* '. Atebais innau fod geiriau gwahanol yn y de a'r gogledd. " Beth ydyw gair y de? ", gofynnodd drachefn. " Scadan ", ebe finnau. " Dyna beth rhyfedd ", atebodd, " canys arferai fy mam a dweud wrthyf mai ' scadain ' y'u gelwid yng ngogledd Ysgotland." Dyna air diddorol ; fe'i ceir yn nehau Cymru ond fe'i collir yng Nghaernarfon a pharthau eraill o ogledd Cymru a digwydd drachefn yn Yr Alban. Dyna ddynodiad ei fod yn *hen* air a bod rhyw gysylltiad rhwng de Cymru a gogledd Ysgotland. Mwy na hynny fe'i defnyddid gynt yng Nghaernarfon, canys y mae Porthscadan yn enw ar le ger Aberdaron. Ni synnwn nas defnyddid, nid o ben Caergybi i ben Caerdydd, ond, benbwygilydd o Gernyw (*Cornwall*) i gwr gogleddol eithaf Prydain Fawr. Gofynnaf i'r ysgolheigion a oes cysylltiad rhyngddo a'r gair Saesneg ' *skate* ' (enw pysgodyn arall) a ddeillia o hen iaith brodorion Llychlyn (*Norway*). Nid oes perthynas agos rhwng y *skate* a'r 'sgadenyn yn nosbarthiad y pysgod, eithr gall fod yna berthynas rhwng y ddau enw. Eglured pwy bynnag a allo y cysylltiadau a'r berthynas, os bu rhai, rhwng pysgotwyr Llychlyn a physgotwyr Cymru.

Cymerer eto'r gair ' lip '. Gair ydyw hwn a ddefnyddir gan amaethwyr dosbarth isa' Ceredigion a rhannau o Gaerfyrddin am fath o fasged bleth. Wedi hir chwilio olrheiniais ef i air yn yr hen iaith Saesneg (*Anglo-Saxon*), sef, ' *leap* ', a olygai fasged. Sut " yn enw'r deuddeg apostol ", chwedl Beni'r Stone, y daeth hwn i Sir Aberteifi ac y safodd yno tra y diflannodd bron yn llwyr o'r iaith Saesneg ei hun ? Dyna'r gair ' lwrd '—gair estronol arall dios—a olyga ' llwch ' yn yr un parthau. Gellid crybwyll geiriau eraill a damcanu a dyfalu'n ddiderfyn ond y mae'n rhaid cadw yn agos o fewn cylch yr " Helyntion ".

Dywedais yn un o'r erthyglau blaenorol fod yr ' wylnos ' cyn hyned o leiaf a dyfodiad y Rhufeiniaid i'r wlad. Fe dardd ' gwyl ' o'r gair Lladin ' *vigil* [*ia*] ' (Saesneg, *vigil*) yn union fel y deillia ' swyn ' o'r gair Lladin ' *sign* [*um*] ' (Saesneg, *sign*) a ' llwyn ' o ' *lign* [*um*] ', yr ' ig ' yn yr holl, fel y sylwer, yn newid yn rheolaidd i ' wy ' yn y Gymraeg. Credaf mai'r unrhyw beth a ddigwyddodd hefyd yn sillaf gyntaf y gair ' Dwynwen '—enw prydferth ar ferch. Daeth y syniad hwn imi nid yn ystod fy myfyrdodau effro eithr mewn breuddwyd. Tybiais yn fy nghwsg mai o ' ig ' y tarddodd yr ' wy ' a geir yn y gair ac arweiniodd hynny fi i'r gair Lladin ' *dign* [*a*] ' a olyga ' teilwng '. Os prydferth ydyw'r enw oblegid ei sain soniarus onid â'n anfeidrol dlysach os gwir fy namcaniaeth am ei darddiad ? Ym mha le y ceid enw mwy swynol ar neb o hiliogaeth Efa nag un a olyga ' teilwng a theg ' ? Rhyfedd ydyw nad adwaenwn unrhyw Ddwynwen ac anghynefin iawn imi ydyw'r enw. Pwy, gofynnaf, a all amgyffred ysgogiadau'r meddwl dynol ynghwsg neu'n effro ?

Benthyciwyd y geiriau hyn a lliaws o rai eraill o'r unrhyw iaith wedi dyfodiad y Rhufeiniaid i Brydain Fawr yn nyddiau Iwl Cesar dros ddwy fil o flynyddoedd yn ôl. Dyna elfennau iaith yn dysgu rhywbeth am orffennol y Cymry. Y mae'r geiriau hyn hefyd yn ddiddorol am nad ymdebygant lawer tro i'r cyn-eiriau gwreiddiol. Yn wahanol i'w cymheriaid yn yr iaith Saesneg ymnewidiasant yn unol a rheolau pendant ; hynny a'u gwna yn fwy swynol na llawer o eiriau Saesneg o'r unrhyw wreiddiau a dyna paham y dylid defnyddio'r Gymraeg yn helaethach wrth ddysgu Lladin i blant Cymru. Dengys hyn oll ramant iaith.

Ofnaf fod plant Llanbedr a'r cylchoedd yn ein dyddiau ni yn chwarae i fesur mawr yn Saesneg. Yng nghyfnod yr " Helyntion " chwaraeid yn Gymraeg. Yn wir byddai cywilydd ar blant bryd hwnnw i siarad Saesneg : byddai gwneud hynny yn sawru o snobri. Nid ymdrechu mewn *high jump* a wneid eithr cystadlu mewn neidio ' cwinten ' ac awgrymaf y cysyllta'r gair hwn blant Llanbedr a mabol-gampau ac ymarferiadau (*quintana*) milwyr Rhufain yn eu caerau yng Ngheredigion rhwng un-ar-bymtheg ac ugain canrif yn ôl. Maentumiais eisoes fod chwaraeon yn bethau arosol o oes

i oes. Ai nid yw'r chwarae neidio cwinten yn braw o hynny? Wele un arall os gwir tystiolaeth hen lyfr. Cyfeirio y mae at bando (*bandy*) a dyma, o'i gyfieithu, a ddywed—

" Cyfetyb i chwarae gwerin ymhlith y Rhufeiniaid a chwaraeid a phêl o ledr wedi ei llenwi a phlu ".

Gwir fod plant Cymru yr oes o'r blaen yn gorfod defnyddio darn o bren neu sylwedd cyfleus arall yn lle pêl a thorri ffon bengam o'r berth i'w daro. Yr oedd fy nhad a'i gyd-chwaraewyr, os nid yn yr olyniaeth apostolaidd, yn sicr yn olyniaeth chwaraeon plant Rhufain. Ni enwir yn y Nodion unrhyw chwarae na wyddwn i amdano yn ddigon da yn fy machgendod.

Cyn imi grwydro yn y fel hyn sôn yr oeddwn am enwau lleoedd. Nid llai diddorol ydyw'r enwau a geir ar ddynion mewn Cymraeg gwerin. Hyd yn oed pe medrwn, nid ydyw yn fy mwriad yn awr i drin yn fanwl yr amrywiol ddulliau (a geir mewn gwahanol ieithoedd) o enwi pobl, megis—

(1) mabwysiadu enw lle yn gyfenw neu steil—fel Mr. Seaton (lle yn Nyfnaint) a Mr. Hastings (tref yn Sussex),

(2) mabwysiadu enw galwedigaeth yn yr un modd—fel Mr. Taylor a

(3) gosod ' s ' berchenogol ar ôl enw bedydd i wneud steil, fel y gwneir pan droir Owen yn Owens a Griffith yn Griffiths, eithr ni wnaf ddim ond cyfeirio at rai o ddulliau cartrefol Cymry gwledig, megis—

(1) galw dyn ar ôl ei le ond heb ystyried enw'r lle yn gyfenw—Twm Gwarcoed, Daniel Llety-ucha', etc. Weithiau anwybyddir hyd yn oed enw bedydd dyn a gelwir ef wrth ei annedd—" Shwt y mae Parcybeili heddi? "

(2) galw dyn ar ôl ei swydd ond eto heb dderbyn enw'r swydd yn gyfenw—Twm Crydd, William Go'. Ni chlywir sôn yn y Gymraeg am Mr. Crydd a Mr. Pannwr fel y ceir Mr. Smith a Mr. Carpenter yn Saesneg.

(3) galw dyn ar ôl ei dylwyth neu ei wehelyth.

Os y collwyd yr hen ddull o ddynodi disgyniad dyn drwy ddefnyddio'r ' ab ' neu'r ' ap ', megis Dafydd ap Harri ap Huw, eto ni chollwyd yr egwyddor o fynegi llinach dyn yn ei enw. Ceir amryw enghreifftiau yn yr " Helyntion ", megis Jim Jinny, y clochydd ; Jimmy Deio Ifan, gŵr y gloch gyhoeddi ; a Thwm Dai Shon Crydd : eithr dihafal ydyw enw cyfoed imi o Lanbedr. Ei enw bedydd oedd Dafi John. Enw ei fam oedd Mari Ann ac eiddo ei famgu Mari Ianto. Ei enw llawn yntau ymhlith y plant oedd Dafi John Mari Ann Mari Ianto. Ni welais ef er's talm byd, eithr deallaf iddo lwyddo hyd yn hyn i gario ei gynffon hir heb ddiffygio. Cyflawnodd wrhydri a phwy a omedd iddo le anrhydeddus ymhlith arwyr ei oes?

Ffansi'r Ffin.

(Buddugol yn Eisteddfod Utica, U.D.A.).

J. Seymour Rees.

Ym mrig un noson, a hi yn hinon Haf o'r flwyddyn 1910 aeth Tomos Prys, gŵr yr Hendre allan i'w feysydd am dro. Ar ei hynt daeth at glawdd terfyn. Edrychodd dros y ffin, a gwelodd ei gymydog, Dafydd Jones, Plas y Wenallt yn agor cwter yno. Cyfarchwyd gwell. Wedi sôn am y tywydd a materion eraill, daethpwyd o'r diwedd at destun diddorol. Achosodd hyn ddadl rhwng y ddau.

Y ffyddlonaf o bawb yn y moddion ym Methel Pont-ar-Fynach oedd Dafydd Jones, y blaenor. Rhoddodd ei farn ddiwyro, y diwedydd hwnnw i Domos Prys mai golau'r nef oedd yn arwain crefyddwyr ymhob cyfnod.

"Y mae'n syn i mi, Dafydd Jones, na buasai'r golau hwn yn dangos i chi, grefyddwyr, eich bod mewn cadwyn gref".

"Paham y dywedwch—'chi grefyddwyr,'—Tomos Prys? Onid yw pawb dynion yng ngafael pechod?"

"Nid ydych yn deall fy meddwl. Nid cadwyn pechod a olygaf, eithr cadwyn ofergoeledd".

Agorodd hyn faes helaeth. Pasiodd awr neu ddwy fel breuddwyd heb ddwyn argyhoeddiad i'r naill na'r llall o'r siaradwyr. O'r diwedd, dywedodd Tomos Prys,—

"Pob parch i chi, ond yn fy myw, ni fedraf ddeall eich dysgeidiaeth. Sut yn y byd mawr y medrwch gysoni eich dull o grefydda ar un llaw, a'ch ofergoel ar y llaw arall? I mi, gorwedd pellter y pegynnau cydrhyngddynt. Ond, dyna fe, 'd oes wiw i ni ddadleu'n hwy heno. Nos da i chi".

Dyna ddiwedd ar ddadl frwd a fu rhwng y ddau gymydog hyn, ar gyrrau uchaf Ceredigion. Dau amaethwr oeddynt, wrthi'n brysur, haf a gaeaf, er cael deupen y llinyn ynghyd. Tir mawnog oedd ganddynt gan mwyaf, heb argoel am gnydiau toreithiog y dyffrynnoedd ffrwythlon.

Nytha'r Hendre mewn ceunant clyd ar gyfyl Pont-ar-Fynach a'i fil-mil swynion. Wrth ymyl yr amaethdy ymuna Rheidiol ag afon Fynach ar eu taith i Iwerydd. Bu'r Hendre yn gartref yr un hiliogaeth am oesau lu. Y gwir yw, ni chodai un genhedlaeth yno nemor uwch na sawdl y llall. Araf y manteisient ar welliannau prin eu cyfnod. Bodlonent gysgu mewn encilion yn hytrach na cherdded i gyfeiriad toriad dydd. Er hynny, byddai ysgwydd y teulu bob amser yn dyn dan faich yr achos ym Methel. Yn hyn o beth, yr oedd Tomos Prys yn dra gwahanol i'w wehelyth.

Saif Plas y Wenallt nepell, ar fryncyn, a chaer o goed preiffion o gylch iddo. Bodlonai'r ach bresennol ar lechu yn eu cysgod heb awydd am swynion y bannau pell. Gwaith eu cyndeidiau bu plannu'r coed, ond eu dymuniad hwy oedd aros yn y cylch cyfrin. Lliw cysgodion y dail sydd hefyd ar ysbryd y teulu. Caiff pelydrau datblygiad a diwylliant eu pylu gan niwl ceidwadaeth frwd. Cyfyng yw eu llwybrau rhwng ei changau hi.

Digyfnewid oedd gwedd yr holl gymdogaeth. Felly hefyd fywyd yr ardalwyr. Deuai tymhorau einioes a'u cyfnewidiadau, ond debyced oedd dull un genhedlaeth i arall. Rhoddai'r mynyddoedd ddelw'r digyfnewid yn gynnar ar arferion y plant. Aros wrth ei hymyl i wrando ar undonedd y distawrwydd yw eu pleser pennaf. Nid oes newid ar gyfrinach y mud. Yr un yw o hyd, . . . er treigliad buan amser a'i ddatguddiadau anheilwng. Byw yng nghyfaredd yr hen, heb awyddu am y newid a gais dychymyg a brwdfrydedd y bobl heini hyn.

* * *

Cedwid ty capel Bethel, Pont-ar-Fynach gan deulu caredig a duwiol. Diaddurn oedd yr adeilad, ond cynnes ei groeso i un a llun Pregethwr arno. Rhoddai'r hen wr bob sylw i'w gysur, a'i wraig yr ymborth gorau i'w angen. Cyn tyfu ohoni'n ugain oed, gwelodd Gwen, eu merch, lawer tro ar fyd. Claddodd ei thad yn gynnar, a dilynwyd ef i dy ei hir gartref gan ei annwyl wraig. Amheuthun i bob cennad hedd oedd gwylio gofal tyner Gwen am ei chwaer hŷn—ond methedig.

Sonnid â hwyl yn y pulpud am aberth bywyd. Gwelwyd ar aelwyd ty'r capel ym Mhont-ar-Fynach ddarlun teg o'r allor gudd. Arni, rhoddai Gwen ei rhodd o sylw manwl a phob cysur i'w chwaer. I'r cyfarwydd yno, hoff oedd craffu ar Wen landeg yn fawr ei ffwdan am ei chwaer anffodus—Nani, ni fedrodd honno oddiar ddydd ei geni hyd ei bedd wneud dim trosti ei hun—ond anadlu. Dywedid yn ddistaw bach fod edmygedd aml bregethwr ieuanc wedi ei ennyn yn serch at Gwen. Y gwir yw, cafodd hi sawl cynnig ar law amryw ohonynt, safodd, er hynny yn ffyddlon i'r adduned a wnaethpwyd ar erchwyn gwely marw ei mam. Cymerth ei llw i'r annwyl honno na phriodai byth tra byddai Nani byw.

Un o'r ymwelwyr cyson â Bethel oedd gweinidog ieuanc Tre'r Heli. Ei enw oedd Geraint Huws. Proffwydai'r beirniaid craff ddyfodol gwych iddo ym mhulpud ei wlad. Dibriod oedd, a chan fod eglwys ei ofal yn gref, a thy taclus i'r gweinidog, teimlai weithiau don o awydd cymhares yn torri tros ei enaid. Teimlai wagle yn ei fywyd, a chri'r angen oedd—" pwy fydd yr anwylyd a foddia nwyd fy nghalon i ? " Syrthiodd yntau fel yr amryw, dan gyfaredd

Gwen. Gwyddai pawb na pherthynai iddi gyfoeth o arian ac aur, eto meddai olud o ledneisrwydd, a chyfran dda o wahanol rasusau. Un nos Saboth, wedi'r gwasanaeth, manteisiodd Geraint ar ddistawrwydd y parlwr bach ym Mhont-ar-Fynach i gyfrinachu â Gwen. Dadlennodd gyflwr ei galon yn wylaidd, ond ni addawodd hi ddim iddo. Aeth yn ornest rhwng y ddau, a phan welodd Gwen ei threchu, cymerth ei harf olaf.

" Wel, a dweyd y gwir wrthych, mae Nani fy chwaer yn fy ngofal. Addewais i mam cyn croesi ohoni y byddwn weddw cyhyd a'i hoes hi ".

Dyfalodd y Parch. Geraint Huws am gynllun i ddwyn y ddwy dan ei ofal. Ni fodlonai Gwen ar gyfran o addewid, felly gorchfygodd yn y diwedd. Yn hytrach na'i ddigalonni ef, denodd aidd Gwen ef fwy-fwy. Am y tro, tawelodd, nes cael ohono gyfle arall rywbryd wedyn.

Ymhen y flwyddyn, ymwelodd angau a thy capel Bethel, a thynnodd Nani fethedig o afael ei chwaer i'w rhoi mewn byd arall. Dianaf ydyw yno.

Daeth cyfnewidiadau o'r herwydd. Chwalwyd y cartref clyd ym mherfedd gwlad, ac aeth Gwen—a hi yn ugain oed—i wasanaeth. Ymsefydlodd yn yr Hendre, ar ddechreu bywyd priod Tomos a Beti Prys.

Yn nechreu'r Hydref o'r flwyddyn 1914, ganwyd y trydydd plentyn i deulu'r Hendre. Llawen oedd calon y tad wrth dderbyn y trysor bach i'w ofal. Yn ei gwendid, llonnodd y fam hefyd yn ei gwaith o ddwyn enaid byw i'r byd. Ail i'w hapusrwydd hwy oedd eiddo Gwen y forwyn. Bu hi wrthi'n brysur ei chymorth i'r fam ar ei gwely. Llywodraethai hefyd yn ddoeth yn y gegin gan gadw llun a threfn ar bopeth. Ni cheid diffyg yn unman gan brysured ei llaw hi. O ganlyniad, gorffwysai'r fam yn esmwyth gan wybod y gweinyddid i fodlonrwydd gan Gwen. Er egnïon y forwyn, araf y deuai adferiad i'r fam. Yn ei nychtod gafaelodd clefyd blin ynddi. Gwelwyd ymhen wythnosau mai gwanhau yr oedd pob gobaith am wellhad. Tawelai yn raddol i'w thynged, a siarsai Gwen i ofalu am ei phlant.

" Chwi wyddoch," meddai yn ei gwendid, " am fy null i o'u dwyn i fyny. Cedwch hwy ar yr un llwybrau o ufudd-dod i ddyn, a pharch i Dduw a'i gysegr ".

Ar noson Calangaeaf, a llenni'r nos yn lledu tros brydferthwch y fro, safai Beti ym mhlygion adain angau. Esmwyth oedd, am fod awr yr ymddatodiad wrth ymyl. A'r anadl yn wan a'r corff yn llesg, gofynnodd i'r forwyn,—

" Gwen, wnewch chi addo eto i mi yr arhoswch yma yn nawdd i'm plant ? Eu dyfodol hwy yw fy unig bryder i. Ofnaf na rydd Tomos iddynt addysg grefyddol." " Meistres fach, na ofelwch am hynny. Chaiff eich plant ddim niwed tra medraf i fod o hyd idd-

ynt." Cafwyd distawrwydd llethol am ychydig. Torrwyd ef gan lais y forwyn,—" Nos Calangaeaf yw hi heno."

Dywed ofergoel fod y dyn neu'r fenyw a gerdd o gylch gwely cennin yn yr ardd ar noson Galangaeaf i briodi'r cyntaf a wêl o'r rhyw arall. Myn pobl y wlad fod rhywbeth yn hyn. Oni chafwyd profion diymwad i brofi dilysrwydd y syniad ?

" Meistres, " meddai'r forwyn, " 'rwy'n mynd allan i'r ardd. Nos Calangaeaf yw hi. 'Dwy i erioed wedi cerdded rownd y gwely cennin o'r blaen ".

" O'r gorau, Gwen fach,—pob lwc i chi."

Er fod y wraig ar ddibyn marwolaeth, hi gredai'r ofergoel. Gwyddai hithau'r forwyn gyflwr y claf, ond rywfodd gorfodwyd hi i gymryd ei siawns heno. Aeth allan o'r ystafell yn dawel, dawel. Dychwelodd mewn eiliad. " Meistres," meddai, " gofalwch na wnewch chi ddweud gair wrth meistr beth wy'n mynd i neud yn yr ardd, mi fydd c'n siwr o wherthin am 'y mhen i." Aeth Gwen allan i'r cyfnos. Agorodd ddrws yr ardd yn llechwraidd, a chan ysbio o'i chylch cyflawnodd holl ofynion yr hen arferiad. Pan adawai'r ardd, dan y dybiaeth na welwyd mohoni gan neb, daeth wyneb yn wyneb a—Thomos Prys ei meistr.

" Gwen fach, 'rwyt ti'n ddylach na'th gysgod," meddai, gyda gwên o gydymdeimlad. Ni atebodd y ferch, ond dychwelodd ar ei hunion i ystafell y claf. " Meistres, fe ddywedsoch wrth meistr b'le bues i." " Welsoch chi e, te ? " " Wel, do, pan o'wn i yn dod allan o'r ardd, yr oedd yno wrth y bwlch yn y nisgwl i."

" Gwen, 'rwy'n mynd o'r byd yma'n dawel fy meddwl, nawr. Cewch chi ofal y plant gen i. Cofiwch fod yn fam dda iddi nhw. Bendith arnoch,"

Am y gweddill o'i hoes, a'i thraed yn ffrydiau'r afon, datganodd Beti Prys droeon ei bodlonrwydd llwyr i Gwen ei dilyn fel gwraig yr Hendre. Eithr cytundeb rhwng dwy oedd hwn, a'i sylfaen oedd ofergoel. Gwyddid yn dda beth oedd credo Tomos Prys. Rhaid cael ei gydsyniad ef cyn cyrraedd y cytundeb. Amlygodd Gwen ei pharodrwydd i ofalu, pe bai angen, am y plant a helynt y fferm. Ni feddyliodd erioed am safle uwch na bod yn forwyn yn yr Hendre. Ei chredo oedd y buasai'r digwyddiad wrth ddrws yr ardd ar noson Galangaeaf yn sicr o wenwyno meddwl Tomos Prys.

Ddiwedd Tachwedd, gadawodd Beti fyd ei phryder a'i nychtod. Ehedodd uwch pob poen i wlad yr hoen a'r nwyf tragwyddol.

* * *

Gwasanaeth i'w gofio'n hir a gynhaliwyd yn yr Hendre cyn claddu Beti Prys. Offrymwyd gweddïau taer yn yr angladd, wrth fedyddio Gerallt—y baban bach—ar arch ei fam.

" O Arglwydd ", meddai hen weinidog pen-wyn Bethel, a'i ddagrau yn disgyn fel cawod yn Ebrill, " bydd drugarog wrth y plant di-fam. Amddiffyn hwynt â'th adain gysgodol. Erfyniwn

hefyd arnat i ofalu am eu tad sydd heddiw yn y ddrycin. Tyn Tomos Prys i glydwch yr Eglwys."

* * *

Ar Sul y Nadolig, gwasanaethwyd ym Methel, Pont-ar-Fynach, gan y Parch. Geraint Huws, Tre'r Heli. Yn oedfa'r nos gweinyddwyd ganddo y Swper Santaidd. Cafodd y fraint o estyn deheulaw Cymdeithas i chwech,—pump o ddynion ieuainc, ac un gwr canol-oed. Bu'r engyl yn brysur yn cludo bendithion gorau'r nef i'r cwrdd hwnnw.

Ar ol gwaith y dydd, gwelwyd dau yn cerdded ar y ffordd i gyfeiriad Ponterwyd. Siaradent yn ddistaw a chyfrinachol. Amlwg wrth ei osgo mai pregethwr yw un. Dywedwyd wrtho gan ei gydymaith,—

"Na Mr. Huws, y mae addewid i bwy bynnag y bo yn gysegredig."

* * *

Bu cyffro mawr ym Mhont-ar-Fynach ar foreu oer o Ionor, 1915. Tyngodd deuddyn eu llw o ffyddlondeb yng ngwydd cynulleidfa anferth i—"fyw ynghyd yn ol ordinhad Duw yn ystad anrhydeddus priodas".

Un gyrchfa oedd i bob llwybr ar y dydd pwysig hwn ym Mhont-ar-Fynach. Teithiai'r ieuanc gan gynorthwyo'r hen o waelod y nant dros bant a bryn. Diddan oedd yr ymgom, os trwm eu baich. Ymwisgai pawb yn eu dillad gorau, a blodau iechyd yn harddu'u gruddiau. Dacw feinir hoyw-gorff yn dwyn ei basgedaid o gywion iachus. Daw hithau'r hen wreigan gloff yn araf ei cham ar bwys ei ffon ag anrheg o gosyn caws. Cludir lliain o frethyn cartref gan fab y gwehydd, a phecyn o flawd ceirch gan ferch y felin. Coflaid o ymenyn gwyryf sydd gan laethferch Plas yr Hafod. Ystol deirtroed a ddwg y saer o'i weithdy. Rhoddion cyffelyb o bob lliw a llun a defnydd a geid yno i ddatgan teimladau da'r gymydogaeth.

Llawen oedd Gwen,—y wraig ieuanc—wrth dderbyn yn hytrach na rhoddi ar yr amgylchiad hynod hwn.

* * *

Yng nghyfeillach nesaf Bethel yr adnod a ddewisasid yn bwnc am y noswaith oedd—"Bwriadau lawer sydd yng nghalon dyn; ond cyngor yr Arglwydd, hwnnw a saif".

Hyawdl odiaeth oedd gwr Plas y Wenallt, Dafydd Jones, wrth siarad ar—Fwriadau Dyn—Cyngor Duw."

Ei frawddeg olaf oedd—"Beth bynnag fo ein cynlluniau helaeth ni, fe'u hysgubir fel us gan gorwynt o flaen amcanion yr Ior."

Diweddodd ei araith gref a phersain mewn distawrwydd pur.

Y cyntaf i estyn ei gymeradwyaeth oedd un a siaradai tan gymhelliad profiad diweddar. A'r gwr hwnnw oedd—Tomos Prys yr Hendre.

Chwedl i'r Plant Lleiaf.

YR HAUL, Y GWYNT, A'R LLEUAD.

UN diwrnod penderfynodd y Fellten a'r Daran roddi gwledd. Yr oedd i fod yn wledd wir ragorol, a'r holl bethau da y gellid dychmygu am danynt i gael eu casglu iddi o bob cwr o'r byd.

Am ddiwrnodau cyn y wledd deuai'r danteithion i fewn. Deuai'r adar â phopeth allent gasglu yn awyr oer y gogledd ac awyr dwym y dehau. Deuai'r pysgod â thrysorau moroedd y dwyrain a'r gorllewin. Deuai'r wiwerod a chnau, a'r brain âg ŷd a'r morgrug â melusion mân. Gofynwyd i ieir bach yr haf drefnu'r blodau, ac addawodd y tonnau a'r nentydd roddi o'u miwsig melusaf.

Un prynhawn yr oedd y Fellten a'r Daran yn ceisio penderfynu pwy oedd i gael gwahoddiad i'r wledd. Nid oeddent yn sicr a oeddent am wahodd tri phlentyn y Fam Seren—Yr Haul, Y Gwynt, a'r Lleuad.

" Mae y Fam Seren wedi bod yn garedig iawn i ni ", meddai'r Daran, " dylem wahodd ei phlant ".

" Mae'r Lleuad yn swynol iawn," meddai'r Fellten, " ond mae'r Haul a'r Gwynt yn arw a gwyllt. Pe byddwn i yn fam iddynt mi a'u cadwn mewn cornel drwy'r dydd nes iddynt addo bod yn fwy tyner ".

" Wel," meddai'r Daran, " mae yn rhaid i ni ofyn iddynt, ond fe fyddwn i yn falch iawn pe arosai yr Haul a'r Gwynt gartref ".

Dyna sut y gwahoddwyd yr Haul a'r Gwynt yn ogystal a'r Lleuad. Pan ddaeth y gwahoddiad i deulu'r Fam Seren, meddai'r Haul a'r Gwynt wrth y Lleuad, " Yr wyt ti yn rhy fach i ddyfod i'r wledd, ond gofynwyd i ti am ein bod ni yn cael ein gwahodd."

Pan glywodd y Lleuad hyn, yr oedd am aros gartref. Ond dywedodd y Fam Seren, " Na, mae yn rhaid i ti fynd gyda'th frodyr ".

Felly aeth y tri phlentyn i'r wledd, a phan ddaethant adref, gofynnodd y fam, " A oes gennych rywbeth i mi ? "

Yr oedd gan yr Haul lond ei freichiau o ddanteithion ond dywedodd, " Mae arnaf fi eisiau y pethau hyn i gyd fy hunan." A throdd ei gefn a bwytaodd y cwbl.

Dywedodd y Gwynt, " Yr oedd gennyf fi lawer o bethau hyd i mi ddyfod hanner y ffordd, ond blinais eu cario, a bwyteais hwynt ".

" Ni feddyliais erioed eich bod mor drachwantus," meddai'r Fam Seren yn drist, " a oes gennyt ti rywbeth fy merch i ? "

"Oes, mam annwyl," meddai'r Lleuad. Ac yn wir yr oedd ganddi ychydig o holl bethau da y wledd, hyd at flodau a gasglwyd gan ieir bach yr haf.

Yr oedd y Fam Seren yn llawen iawn am i'r Lleuad fod mor garedig, ond yr oedd yn drist am iddi wybod fod yn rhaid cosbi yr Haul a'r Gwynt am eu trachwant.

"Haul", meddai'r Fam Seren, "yr wyt ti wedi troi dy gefn arnom i gyd, a'th gosb di fydd hyn. Pan ddaw dyddiau poeth yr haf, bydd pawb yn troi eu cefnau arnat ti".

Ac wrth y Gwynt dywedodd y Fam Seren, "ni feddyliaist ti am neb ond ti dy hun. Pan ddaw'r storm a thithau yn ofni ac yn ffoi o'u blaen ni fydd neb yn meddwl am danat ti. Bydd pawb yn cau eu drysau yn dy erbyn."

Ond wrth y Lleuad dywedodd y Fam Seren, "fy Lleuad fach, yr wyt ti bob amser yn garedig ac yn fwynaidd. Byddi bob amser yn ddisglaer ac yn brydferth, a bydd dynion yn dy garu a'th ganmol pryd bynnag yr edrychant ar dy wyneb llon a thyner".

Dyma paham mae dynion yn ymguddio rhag yr haul a'r gwynt ond bob amser yn croesawu y lleuad.

O "*Chwedlau Natur*" gan Florence Holbrook.

Priodasau.

Yn y Tabernacl, King's Cross, Llundain, o flaen y cofrestrydd, a'r Athro Joseph Jones, Aberhonddu, ar y nawfed o Fai, unwyd mewn glân briodas, Mary Gladys Evans, merch Mr. a Mrs. Evans, Gray's Inn Road, King's Cross, gynt o Gyfeile, Llandysul, a John Brynmor Jones, Barclays Bank, Edgware, mab Mr. a Mrs. Jones, London House, Resolven. Ar ol y briodas aeth y pâr ieuanc yn groes i Ffrainc i dreulio eu mis mêl.

Mai 14, yng Nghapel-y-Groes, gan y Parchn. E. Griffith Jones, a David Evans, Cwmiago, ym mhresenoldeb y cofrestrydd, Mr. Enoch Davies, Llanbedr, unwyd mewn priodas, Mr. Evan Tom Thomas, Llysfaenisaf, a Miss Jane Ina Jenkins, Blaenwaunganol. Pob llwyddiant a'u dilyno.

Mai 22, yng Nghapel Cribyn, gan y Parchn. E. Griffith Jones, a David Evans, Cwmiago, unwyd mewn glân briodas, Mr. Evan Tom Jones, Esgeringlis, a Miss Annie Evans, Fronfelen. Dymunwn iddynt bob hapusrwydd.

Marwgof.

Bu farw ELIZABETH ROWLAND, Wern Lodge, Ceinewydd, dydd Llun, Mai 3, yn 53 mlwydd oed. Claddwyd ei gweddillion ym mynwent Pantydefaid, dydd Iau, Mai 6. Pregethwyd yn y Capel, a gwasanaethwyd ar lan y bedd, gan Weinidog y lle.

Nodion yr Eglwysi.

LLWYNRHYDOWEN.—Mae cynulleidfa Llwynrhydowen wedi penderfynu helaethu a harddu'r Festri, a gwneud adgyweiriadau nas gellir eu hepgor ar y Capel. Bernir y cyst yr oll o'r gwaith tua £540. Y mae'n mwriad yr aelodau i wneud eu gorau mewn cyfrannu ond teimlant y bydd yn rhaid iddynt apelio am gymorth cyfeillion—unrhyw rai deimlant ar eu calon i roddi help llaw, bydddent cystal a danfon eu rhoddion i Miss Jones, Gellifaharen, Llandysul, neu'r Parch. E. O. Jenkins, Llwynmarles, Llandysul.

URDD Y BENYWOD CEREDIGION.—Carem wneud yn hysbys i ganghenau'r uchod mai ar Sul, Gorffennaf 4ydd y telir yr ymweliad a Chapel Pantteg, yr hwn a saif tua 4 milltir o Gastell Newydd Emlyn. Ceir pob croesaw wedi cyrraedd yno. Dechreuir gwasanaeth y prynhawn am 2.30 Ceir anerchiad ar "ychydig o Hanes Pantteg" gan Miss James, O.B.E., a phapur gan Mrs. Daisy Williams, Llanbedr. Paratoir Tê yn ysgoldy Capel Iwan yn yr ymyl a'r pris fydd 9c. yr un. Disgwylir i bob cangen ddanfon gwybod i Miss James, Capel Iwan, C.N. Emlyn, erbyn Mehefin 23ain, amcan-gyfrif o'r nifer fwriada fynd, er hwylysu'r gwaith gyda pharatoi'r bwyd. Yn yr hwyr am 6 o'r gloch pregethir gan y Parch. E. O. Jenkins.—K. Jones.

GRAIG, (LLANDYSUL).—Cynhaliwyd Cymanfa Ysgolion—Bwlchyfadfa, Llwynrhydowen, Pantydefaid a Llandysul, yng Nghapel y Graig, Sul, Mai 23ain. Er gwaethaf yr hin cafwyd cynulliadau ardderchog yn y prynhawn a'r hwyr, y Capel yr orlawn bob tro. Holwyd y Plant a'r rhai mewn oed yn y prynhawn gan y Parch. E. O. Jenkins, gyda pleser a bodd i'r gynulleidfa. 'Roedd y canu eleni yn nwylaw medrus Mr. L. T. Thomas, Penarwel, a phleser rhyfedd oedd clywed y plant yn enwedig yn canu mor feddyliol a swynol. Yn yr hwyr traddododd Mr. Jenkins yn ei ddull atdyniadol ef ei hun bregeth amserol a phwrpasol. Yn ystod y dydd, ar gais Gweinidog y Graig, pasiwyd penderfyniad o gydymdeimlad dwys a theulu y diweddar, Brif-athro J. Park Davies, M.A., B.D.

HEN-DY-CWRDD, TRECYNON, ABERDÂR. — Pleser calon gennym gydnabod gweithgarwch a charedigrwydd Adran Urdd y Benywod, perthynol i'r Hen Dy Cwrdd. Maent eto wedi rhoddi help llaw mewn modd sylweddol i ni drwy estyn i'r drysorfa eglwysig y swm o ddeg gini, ardderchog onide. Teimla y diaconiaid a'r swyddogion yn ddiolchgar iawn iddynt am y cynorthwy yma, ac am eu gweithgarwch dros yr eglwys. Mae Urdd y Benywod yn adran weithgar a chynorthwyol anmrhisiadwy i ni fel eglwys, a balch iawn ydym i weled ar dudalennau yr Ymofynnydd gofnodiadau yn aml am weithgarwch adrannau eraill. Bendith Duw fo ar eu hymdrechion ar ran ein heglwysi.——Hefyd dymunem gofnodi digwyddiad hapus arall yn hanes yr Hen Dy Cwrdd, sef yr hyn a elwir gan y sais yn "coming of age", y Sul olaf ym mis Ebrill, cyrhaeddodd gweinidogaeth ein parchus weinidog, pen ysbaid o 21ain o flynyddau, ysbaid hir, ond edrychwn yn ol arni fel un hapus a heddychol iawn, a'n dymuniad dwys yw y cawn lawer o flynyddau eto i fwynhau yr hapusrwydd a fodolai rhwng yr eglwys a'i bugail hoff. Dymunem i'r Parch. E. R. Dennis iechyd a nerth i'n bugeilio a dal i fyny baner Undodiaeth yn yr ardal yma, a gwasanaethu yr enwad yn gyffredinol am flynyddau lawer eto.

"Hiwmor, Synnwyr, a Halen" yw teitl llyfr newydd gan y Parch. D. Delta Evans, a fu am saith mlynedd ar hugain yn golygu'r *Christian Life*, ac yn flaenorol i hynny am bum mlynedd (1895—1901) yn arweinydd y Mudiad Undodaidd Cymreig yn Llundain. Flynyddoedd lawer yn ôl, arferai Mr. Evans ysgrifennu'n rheolaidd i'r *Faner*, ac nid yn anfynych i'r Ymofynnydd hefyd. Cyhoeddir ei lyfr newydd yn fuan gan Wasg Gymraeg Foyle, Llundain, a'i bris fydd 4s. 6c. Yn

rhagarwain ceir traethawd beirniadol ar ddiarhebion Cymru, gyda nodion eglurhaol ; yna dilynir ag Atgofion Mebyd yr awdur. Felly, yn ôl hysbysiad y cyhoeddwyr, " math o hunan-gofiant ydyw'r gwaith parthed yr ugain mlynedd cyntaf yng ngyrfa'r ysgrifennydd. Mwy na hynny ; oblegid edrydd yr awdur nid yn unig hanes ei ddireidi, ei anturiaethau, a'i helyntion fel plentyn ac yna fel llanc yng Nghymru, ond cyfeiria yma ac acw at ddigwyddiadau nodedig eraill y cyfarfu â hwynt ynghwrs ei bererindod. Ceir yn y gwaith ddisgrifiadau ffraeth, mewn gair a darlun, o hen gymeriadau digri, a rhai rhagorol hefyd, y cofia'r awdur amdanynt ymysg trigolion ei ardal enedigol (Sir Fflint) drigain mlynedd yn ôl. Ardystia'n frwdfrydig ei ddyled i'r ysgol Sul yng nghapel y Cwm, ac yn arbennig i'w athrawon wedyn yn Dyserth a Rhyl. Sonia'n arabus am ysbrydion a bwganod, ac am draddodiadau, arferion, a chwaraeon y fro yn nyddiau ei febyd, a disgrifia'r ffermydd y bu'n gweithio ynddynt fel bachgennyn. Addurnir y tudalennau â lliaws o ddarluniau gwreiddiol a chywrain, a'r cwbl yn chwanegu at ddiddordeb a difyrrwch y storiau. Yn Saesneg, fel atodiad, y mae un adran o'r llyfr." Rhai o'r lleoedd y sonnir amdanynt—**darluniau* : Allt-y-Plas, Bod-Bronberllan, *Brync'nwllyn, Bryniau, Caerwys, Capel Clwyd-st, Capel Horeb, *Capel y Cwm, *Cricin, Dinbych, *Dyserth, *Felin Fach, *Foel, *Gadlas, Galltmelyd, Graig Fach, Graig Fawr, Gwaunysgor, Henblas, Henfryn, *Llanelwy, *Llan y Cwm, Llwyn Onn, Llynhelyg, Llysfaen, Marian Mawr, *Marian y Cwm, *Mynydd y Cwm, Nantyffiach, Newmarket, *Ochr-y-Foel, *Pant-yr-Hesbin, *Pedaircroesffordd, Penisa'rwaun, *Plas Mawr, *Popty Ochr-y-Foel, *Pont Elwy, Pwllhalog, *Rhos Mari, Rhuddlan, Rhydwen, *Rhydyddeuddwr, *Rhyl, *Royal Oak, Tanllan, Talargoch, Ty Newydd, *Trecastell, *Tyddyn-y-Cyll.

HEN DY CWRDD, CEFN COED Y CYMER.—Yn anaml iawn daw eglwys yr Hen Dy Cwrdd ar dudalenau yr Ymofynnydd. Hen arferiad sydd i gyfrif am hynny, a hwyrach ei bod yn llawn bryd i dorri'r arferiad.——Pwy o ddarllenwyr yr Ymofynnydd nad sydd wedi clywed sôn am, Owen Evans, John Hathren Davies ? Perarogli wnai eu henwau ym mhob tŷ yn yr ardal o hyd. A phwy nad sy'n adnabod Thomas Eric Davies, John Carrara Davies, a T. L. Jones ? Trwy weinidogaeth y rhai hyn, mae'r Hen Dy Cwrdd o hyd yn eitha byw, ac mae hawl gan bethau byw ddod i sylw y cyhoedd.——Mae'r hen adeilad diaddurn lle gynt cadwai Owen Evans ym mhlith y pethau a fu, a saif heddiw adeilad hardd, cynnwysfawr ar yr hen seiliau.——Breuddwyd wedi dod i ben yw'r Ysgoldy Newydd. Gwelwyd ers tro fod yr " hen " yn anaddas i ddibenion y gynulleidfa, a dechreuodd rhywun freuddwydio. Aeth y breuddwyd yn " fever " —rhaid oedd cael Ysgoldy Newydd a thŷ Capel Newydd. Ond sut oedd dwyn y breuddwyd i ben ? Nid yw'r Hen Dy Cwrdd yn amddifad o " Ewyllys " i fyned rhag ymlaen, ac o flwyddyn i flwyddyn awd ati (dan arweiniad Mr. Lewis Edwards) i baratoi'r ffordd i ddwyn y breuddwyd yn ffaith. Nid yw ysbryd aberth a chariad at y goreu wedi marw yn yr Hen Dy Cwrdd, a rhoddodd pawb o gariad at drysorfa'r adeiladu.——Clod i eglwys mewn ardal ddiwaith a thlodi yw casglu £1200 y dyddiau yma. Dyna'r swm oedd eisiau, ond ni fu hynny yn achos blinder a gofid i'r gynulleidfa, a chyn cael y swm i law penderfynwyd tynnu yr hen furiau i lawr. Mae yna ambell i adeilad (er iddo fethu byw i fyny i ddibenion newydd cynulleidfa) mor annwyl a chysegredig i galon yr hên nes ei gwneud yn anhawdd i'w dynnu i lawr garreg oddiwrth garreg, a llawer deigryn distaw a gollwyd gan lawer o weled gwaith y dymchwelyd yn myned ymlaen. Wythnos cyn dechreu ar y gwaith cynhaliwyd cyfarfod o ffarwelio yn yr hên adeilad, a chafwyd awr ddiddorol gan Mr. Tom Lewis, Y.H. (mab y Mynydd) wrth iddo roddi hanes yr Hên Ysgoldy a'r hen gewri a fu. (A chyda llaw gwnaeth gymwynas fawr a'r gynulleidfa a'r enwad yn Nghymru flynyddoedd yn ol trwy ysgrifennu yn llawn hanes yr achos yn y Cefn. Efe, ond odid, yw'r unig un y tu fewn i'n henwad, sydd wedi mentro ar y gwaith. Ai nid oes yna rywun eto all anturio ar yr un gwaith trwy ysgrifennu hanes Hen Dy Cwrdd, Aberdâr, Llwyn-

rhydowen, a Chapelau eraill? Nid yw hynyna ond gyda llaw.——Aeth misoedd heibio, ond gwelwyd y breuddwyd yn dod i ben, ac ar y 1af o Ebrill, y flwyddyn hon agorwyd yr Adeilad Newydd gan Nurse Howell o Burkdale, Lancs., a chynhaliwyd cyfarfod o ymgesygru dan arweiniad y Gweinidog. Pregethodd ar y geiriau "Gorffenwyd, Gorffenwyd", a chafwyd areithiau pwrpasol iawn gan gynrychiolwyr y gwahanol adrannau o'r gynulleidfa. Prynhawn Sul canlynol cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i blant yr Ysgol Sul, a llanwyd yr ystafell newydd hyd yr eitha.——Sul Ebrill y 25ain yn yr Ysgoldy Newydd dadorchuddwyd "awrlais" prydferth—anrheg Nurse Howell, i'r gynulleidfa er côf am yr agoriad.——Mae yma yn awr adeilad hardd i wasanaethu cenedlaethau y dyfodol, a sancteiddier y newydd trwy "wŷlio dy droed pan fyddech yn myned i Dŷ Dduw".——Dymuna'r gynulleidfa ar y Cefn ddiolch o galon am bob cymorth ariannol gafwyd gan gyfeillion yr achos. Nid yw'r ddyled eto wedi ei thalu—mae oddeutu can punt eto'n eisiau. Nid begian ydym, eithr diolch, ond os y carai rywun eto estyn cymorth mae'r achos yn deilwng a chalonnau yn awyddus i fod yn ddiolchgar.——Tro yr Hen Dy Cwrdd eleni oedd derbyn cyfarfodydd Chwarter y Pasc. Barn pawb fu'n bresennol yw i ni gael cyfarfodydd brâf, a negesau amserol yn sôn am y pethau tragwyddol. Pregethwyd nos Fercher (Ebrill 14eg) yn Saesneg gan y Parch. E. R. Dennis ar y testun, "Iesu Grist yr un ddoe, heddiw, ac yn dragywydd," a'r Parch. S. E. Bowen ar y testun, "A'u llygaid hwynt a agorwyd, a hwy a'i hadnabuant ef, a hwy a ddywedasant wrth eu gilydd. Onid oedd ein calon ni yn llosgi ynom tra ydoedd efe yn ymddiddan â ni ar y ffordd a thra ydoedd efe yn agoryd i ni yr ysgrythyrau?" Bore dydd Mercher cynhaliwyd pwyllgor o'r gymdeithas, ac yn y prynhawn pregethwyd gan y Parch. J. D. Jones, B.A., B.D. Seiliodd ei sylwadau ar stori brimitif yr Iddew am adeiladu Twr Babel—"Moeswch, adeiladwn i ni ddinas a thwr â'i nen hyd y nefoedd—a gwnawn i ni enw rhag ein gwasgaru ar hyd wyneb yr holl ddaear. A'r Arglwydd a ddisgynodd i weled y ddinas a'r twr a adeiladai meibion dynion." Dilynwyd yn rymus iawn gan y Parch. Lewis Williams.——Yn yr hwyr pregethwyd gan y Parch. T. O. Williams, M.A. ar y testun, "Gwna hyn Iesu yn Fachniydd (yn securiti am yr I.O.U.) neu am y ddyled." A dygwyd y cyfarfodydd i derfyn gan y Parch. E. O. Jenkins, yn pregethu ar y geiriau, "A hi a esgor ar fab, a thi a elwi ei enw ef Iesu—oblegid efe a wared ei fobl oddi wrth eu pechodau."—Diolchwyd yn gynnes iawn i'r gynulleidfa am dderbyn y Cyfarfodydd gan y Parch. E. O. Jenkins ac eilwyd gan Mr. W. S. Jones, M.A., M.Sc.

CAPEL-Y-CWM.—Ar ôl y gwasanaeth nos Sul, Ebrill 2, anrhegwyd plant yr Ysgol Sul, mewn nifer yn un-ar-hugain â Thestamentau mewn rhwymiad hardd gan Mrs. Meredith Williams, Penralltnewydd. Cafodd Gertie Hales rodd ychwanegol ganddi am gadw'r Ysgol Sul yn ddifwlch am y flwyddyn. Wrth ddiolch i Mrs. Williams am ei charedigrwydd cyfeiriodd y Gweinidog at ei gwasanaeth haelionus mewn llawer modd i'r achos.

Er Cof am

John Park Davies, M.A., B.D.

Prifathro Coleg Presbyteraidd Caerfyrddin

Gweinidog — Ysgolor — Gwr Bonheddig o Gristion.

(Gweler y rhifyn nesaf.)

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion, Gwasg Gomer, Llandysul.

A GOLDEN TREASURY OF THE BIBLE (and Apocrypha)
Edited by MORTIMER ROWE, B.A. assisted by Principal H. MC LACHLAN, and DR. DOROTHY TARRANT. 1,033 pages cr. 8vo. 7/6 net (by post 8/-). Leather bound, gilt edges, 10/6 (by post 11/-). A book for every lover of great things in literature and life.

CHRISTIANITY AS A NEW RELIGION
By PERCY DEARMER, M.A., D.D., Canon of Westminster. Price 1/- (by post 1/1). (The 1935 Essex Hall Lecture). Many formal lectures still in print. Send for list.

THE ESSENTIALS OF CHRISTIANITY
By HERBERT J. ROSSINGTON, M.A., B.D. Price 1/- (by post 1/1). Cloth, 2/- (by post 2/2).

DOCTRINES THAT DIVIDE THE CHURCHES
By C. M. WRIGHT, M.A. Price 6d. (by post 7d).

CHRISTIAN EXPERIENCE
By G. RANDALL JONES, M.A., B.SC., B.D. This is No. 21 in the series:
RELIGION: ITS MODERN NEEDS AND PROBLEMS
Edited by RAYMOND V. HOLT, M.A., B.LITT. Twenty-one books of different titles and authors are now issued. 1/- each (by post 1/1).

Send for 24 page Prospectus with synopsis of the individual books.

The Lindsey Press, 5 Essex Street, Strand, London, W.C.2.

OS YDYCH AM RODDI ANRHEG AM FFYDDLONDEB I'R YSGOL SUL A FYDDO YN DDERBYNIOL

—RHOWCH GOPI O'R—

"PERLAU MOLIANT"

ARGRAFFIAD NEWYDD.

ARGRAFFIAD SOLFFA.

	s.	c.
Rhwymiad French Morocco (India Paper) Ymylon Aur ...	7	0
Lledr ... ... eto ...	5	6
Lledr, ochrau Llian ... ... eto ...	4	6

ARGRAFFIAD HEN NODIANT.

	s.	c.
Lledr, Ymylon Aur	7	6
Rhwymiad Arbennig, eto	15	0

Anfoner pob Archebion gyda Blaendal i—

Swyddfa'r 'Ymofynnydd,' Llandysul.



Cecil Jones,

F.B.O.A.,
F.S.M.C.,
F.I.O.

:: QUALIFIED OPHTHALMIC OPTICIAN ::

31, Great Darkgate Street

ABERYSTWYTH

TELEPHONE NO. 209.